PROSIECT:

# GOSOD PANELI SOLAR A PHWYNT EGNÏO BEICIAU TRYDAN

YMGEISYDD: **NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD**

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**6**

LLEOLIAD
**LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, SIR DDINBYCH**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£28,657.50**

## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

Derbyniodd y prosiect gyfraniad gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDS). Mae'r gronfa hon yn cynorthwyo prosiectau amgylcheddol arloesol a chynaliadwy sy'n ymwneud â chymunedau lleol yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.




## Y PROSIECT

Gyda chymorth cynllun ynni adnewyddadwy y gronfa Cymunedau Gwyrdd, mae Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd, wedi 'llwyddo i gwblhau'r jig-sô'.

Dyna ddywed Ron Bell, rheolwr ac ysgrifennydd pwyllgor y neuadd, a fu'n dyst i'r camau breision a gymerwyd gan y pentref tuag at gyrraedd sero net.

Gosodwyd paneli solar newydd sbon yn lle paneli hen a chyflwynwyd pwynt egnïo beiciau trydan y gall trigolion y pentref ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim.



## NODAU'R PROSIECT

Gwnaed y gwelliannau i'r neuadd er mwyn creu gofod croesawgar y gall trigolion Llanbedr DC ei fwynhau trwy gydol y flwyddyn.

Mae llawer o glybiau yn defnyddio'r neuadd yn rheolaidd, yn cynnwys carate, ioga a rheilffyrdd pren, a phartïon o bob math a maint.

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# GWEITHGAREDD

Darnau olaf jig-sô o welliannau yn Llanbedr Dyffryn Clwyd oedd gosod paneli solar newydd mwy effeithiol ar do'r neuadd a chyflwyno pwynt egnïo beiciau trydan.

Diolch i gyfraniad o £7,000 gan Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gosodwyd goleuadau LED tu fewn a thu allan yr adeilad yn ogystal.

Mae'r goleuadau allanol yn cydymffurfio â'r canllawiau Awyr Dywyll, sy'n rhan o gynllun y llywodraeth i leihau'r defnydd o oleuadau trydan a'u heffaith ar yr amgylchedd, yn cynnwys ei gwneud yn haws i weld awyr a sêr wedi'r machlud a pheidio tarfu ar anifeiliaid y nos.

Mae'r gwaith hwn yn dilyn gwelliannau eraill a gyflwynwyd dros y blynyddoedd, yn cynnwys campfa awyr agored, pwmp gwres ffynhonnell aer (air source heat pump), system ailgylchu dŵr glaw ac adnewyddu mannau picnic.

Meddai Ron: "Rydym eisoes yn garbon niwtral a gobeithiwn fod yn un o'r adeiladau cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gyrraedd sero net.

"Bu'n nod hir dymor gennym i wella pob agwedd ar y neuadd a braf iawn ydi gweld y datblygiadau diweddaraf."

Fel rhan o waith gosod y paneli solar, ychwanegwyd batri i storio'r trydan sy'n cael ei gnhyrchu fel y gellir ei ddefnyddio trwy gydol y dydd.




***"MAE'R NEWIDIADAU DIWEDDARAF WEDI CWBLHAU EIN JIG-SÔ, AC RYDYM WRTH EIN BODD GYDA'R GEFNOGAETH A GAWSOM I WELLA ADNODDAU'R NEUADD."***

***-RON BELL***

# CANLYNIADAU

"Prif ganlyniad y gwelliannau yw ein bod bellach bron yn hunan gynhaliol, " meddai Ron. "Roedd ein paneli solar blaenorol tua 10 i 12 oed, a gwir angen eu huwchraddio er mwyn manteisio ar y datblygiadau mewn technoleg ers pan osodwyd y rhai gwreiddiol.

"Mae'r system newydd ar y to, ynghyd â'r goleuadau LED, yn golygu ein bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

"Ac roedd yn braf cael gwared o'r hen lifoleuadau. Yn eu lle gosodwyd lampau sy'n goleuo mewn ymateb i symudiad gan daflu eu golau tua'r llawr er mwyn lleihau llygredd goleuni yn yr awyr.".

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Area of Outstanding Natural Beauty